

2016 Rhif 897 (Cy. 225)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 33 (Cyfnewidfa
Llaneurgain) i Gyffordd 31
(Cyfnewidfa Crossways), Sir y
Fflint) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2016**

Gwnaed

25 Awst 2016

Yn dod i rym

5 Medi 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd yr holl draffig ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2016. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 33 (Cyfnewidfa Llaneurgain) i Gyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways), Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Medi 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau o gefnffordd yr A55 a’r ffyrdd ymuno ac ymadael rhwng Cyffordd 33, (Cyfnewidfa Llaneurgain) a Chyffordd 31, (Cyfnewidfa Crossways) yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y’u dangosir gan arwyddion traffig.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Awst 2016

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn cyfan o'r gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33 (Llaneurgain) hyd at ganolbwynt Cyffordd 31 (Caerwys).
2. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33 (Llaneurgain).
3. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin wrth Gylchfan y Little Chef.
4. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32B (Helygain).
5. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32A o'u cyffordd â Ffordd Sirol y B5123.
6. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Dolphin).
7. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31 o'i chyffordd â chylchfan Ffordd Sirol y B5122.